

TRAHAEARN BRYDYDD MAWR, bardd yn canu yn hanner cyntaf y 14eg ganrif

Enw: Trahaearn Brydydd Mawr
Rhiant: Goronwy ap Rotbert
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: David Myrddin Lloyd

Mewn cerdd ddychan arno fe gawn ei ach am dair cenhedlaeth, sef Trahaearn, fab Goronwy, fab Rotbert fab Bledri (*Llyfr Coch Hergest*, 1343). Y mae awgrymiadau yn yr un gerdd a bair inni dybio iddo yntau, fel [Cynddelw](#), gael ei alw'n ' Brydydd Mawr ' oblegid ei faintioli corff (e.e. ' Kawr a syrr, Karw byrr y barch ' a ' Mab Gronwy oed mwy no mi '). Yn ôl y *Cambrian Biography* ([Owen](#)), fe dybir mai'r un ydoedd â [Chasnodyn](#), a maentumiai ' [lolo Morganwg](#) ' mai g r o Langyfelach oedd Trahaearn ac iddo lenwi 'Cadair Morganwg ' tua 1300. Ond yn y farwnad iddo (Llyfr Coch Hergest, 1229/30, a *The Myvyrian Archaeology of Wales* [↗](#), 277) a briodolir yn y *The Myvyrian Archaeology of Wales* i [Wilym Ddu o Arfon](#) fe'i cysylltir â 'gwlad Feiriawn.' Fe'i gosodir hefyd yn y farwnad hon yn llinach y penceirddiaid. Ond yr oedd Trahaearn, fel [Casnodyn](#) ei gyfoeswr, yn perthyn i gyfnod pryd na chedwid y ffin rhwng pencerdd a goganwr yn bendant. Y mae Trahaearn yn canu i Hywel o Landdingad yn Ystrad Tywi, ac i Dduw, mewn dull penceirddiaidd, ac i ' Gadwgawn a'i ddaw' yn null enllibus a chras y goganwr. Pardduwyd Trahaearn hefyd mewn gogangerdd ddiennw, gan Ddeheuwr y mae'n debyg, ac o'r gerdd hon casglw mai Gogleddwr ydoedd, yn canu yn y De. Fe'i gelwir yn alltud, yn groesan, yn 'ddibencerdd,' yn ddarymredwas (crwydrwr); ac fe'i hanogir i aros yn ei wlad ei hun.

Awdur

David Myrddin Lloyd, (1909 - 1981)

Ffynonellau

The Myvyrian archaiology of Wales (Denbigh 1870), 277, 331

'*Llyfr Coch Hergest*' (*Jesus College MS. cxi*), 1222-3 1229, 1343-5, 1357

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 5-6

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Trahaearn Brydydd Mawr](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q13131974](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> [↗](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

